**<u>PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI</u>**
**<u>11 Ionawr 2022</u>**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi, Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mawrth, 11 Ionawr 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rosetta Dolphin (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Sean Bibby, David Evans, George Hardcastle, Patrick Heesom, Joe Johnson, Paul Shotton ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:**Y Cynghorydd Andy Hughes, Dennis Hutchinson a Cindy Hinds

**DIRPRWYON:**
Y Cynghorydd Kevin Rush (ar ran y Cynghorydd Vicky Perfect)

**HEFYD YN BRESENNOL:**Y Cynghorydd Haydn Bateman (arsylwr)

**CYFRANWYR:**Y Cynghorwyr Ian Roberts (Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg), Chris Bithell (Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Derek Butler (Aelod Cabinet Datblygu Economaidd) a Glyn Banks (Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd); Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) a Phrif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)

<u>Ar gyfer cofnod rhif 54</u>
Ymgynghorydd Perfformiad Strategol

<u>Ar gyfer cofnod rhif 55 a 56</u>
Rheolwr Menter ac Adfywio

<u>Ar gyfer cofnod rhif 57</u>
Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd a Rheolwr Gwasanaethau Stryd

<u>Ar gyfer cofnod rhif 58</u>
Rheolwr y Strategaeth Wastraff

**HEFYD YN BRESENNOL:**Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 51. <u>DATGAN CYSYLLTIAD</u>

Dim.

## 52. <u>COFNODION</u>

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Paul Shotton a George Hardcastle.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 53. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddiweddaraf i'r Aelodau ei hystyried ac amlygodd yr eitemau i'w hystyried yn ystod y cyfarfod ar 8 Chwefror. Cyfeiriodd wedyn at gyfarfod 5 Gorffennaf gan gadarnhau y bydd yr eitem ar y Safle Tirlenwi Safonol, yn unol â chais y Cynghorydd: Hutchinson, yn cael ei thrafod yn y cyfarfod hwnnw. Gan symud at yr adroddiad ar Olrhain Camau Gweithredu darparodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sydd wedi'u cwblhau a'r rheiny sy'n dal ar y gweill.

Gofynnodd y Cynghorydd Owen Thomas am y wybodaeth ddiweddaraf am broblemau sbwriel o lefydd bwyd. Mewn ymateb cadarnhaodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod y Cyngor yn parhau i lobio Llywodraeth Cymru i newid y ddeddfwriaeth. Cadarnhaodd, pan gafodd y Cydlynwyr Ardal wybod am y problemau, eu bod wedi ymweld â'r llefydd hyn i siarad gyda nhw.

Roedd Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd yn rhannu pryderon y Cynghorydd Thomas a chyfeiriodd at y cynnig a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru flynyddoedd yn ôl. Roedd y cynnig hwn yn amlygu'r un materion gydag awgrym y dylid tagio'r deunydd pacio mewn rhyw ffordd er mwyn gwybod o ble ddaeth. Yn y pen draw Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am newid y ddeddfwriaeth er mwyn i'r Cyngor orfodi pethau. Mae'r siopau bwyd cyflym yn ymwybodol o'r problemau ond nid ydynt yn gwneud unrhyw beth i leihau effaith sbwriel. Mae'r Cyngor yn gorfod delio â hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd George Hardcastle ynglŷn â chyllid ar gyfer croesfannau isel, cadarnhaodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor fis Chwefror. Nid oes cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer hyn ond mae ceisiadau yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy'r gronfa Teithio Llesol, ond mae'r adnoddau'n gyfyngedig.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Joe Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y'i diwygiwyd;
(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
(c) Nodi cynnydd y camau gweithredu sydd ar y gweill.

**54. CYNLLUN Y CYNGOR 2022-23**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol fersiwn ddrafft o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2022-23 sy'n amlygu blaenoriaethau allweddol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn. Mae'r themâu a'r blaenoriaethau'r un fath ond mae adolygiad o'r holl gamau gweithredu a thasgau wedi'i gynnal yn dilyn ymateb y Cyngor i'r pandemig a'r cyfnod adfer. Mae'r Cabinet eisoes wedi cytuno ar y Cynllun, sydd bellach yn cael ei gylchredeg i bob pwyllgor trosolwg a chraffu er mwyn iddynt ymgynghori yn ei gylch erbyn dechrau mis Chwefror. Yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai bydd cyfle i aelodau newydd o'r Cyngor weld a chyfrannu at y cynllun ym mis Mehefin. Yna bydd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol yn casglu'r holl adborth at ei gilydd cyn cyflwyno'r cynllun terfynol i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Gorffennaf.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Owen Thomas a Joe Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adborth ar gynnwys diweddaraf themâu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2022-23 cyn rhannu'r ddogfen gyda'r Cabinet ym mis Mehefin 2022.

**55. Ail Gylch Cyllido Cronfa Codi'r Gwastad**

Cyflwynodd Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr adroddiad sy'n amlygu ail gylch cyllido Cronfa Codi'r Gwastad ar gyfer prosiectau cyfalaf a'r gwaith sydd ar y gweill cyn cyflwyno'r ceisiadau yn y gwanwyn. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yr wythnos nesaf a bydd sylwadau'r Pwyllgor hwn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

Darparodd y Rheolwr Menter ac Adfywio gefndir i'r Rhaglen Gyfalaf a gyhoeddwyd yn 2021 ac sy'n dod i ben yn 2024 ac yn rhan o raglen Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU. Roedd y Cyngor yn gallu gwneud tri chais ar gyfer prosiectau cludiant strategol a rhaglenni adfywio yn etholaethau Alun a Glannau Dyfrdwy a Delyn. Mae pob Cyngor yn gallu cyflwyno ceisiadau, gyda'r cynghorau llwyddiannus yn gorfod darparu o leiaf 10% o arian cyfatebol. Soniodd y Rheolwr Menter ac Adfywio am y cais aflwyddiannus y llynedd, y blaenoriaethau a'r pryderon ynghylch yr amserlen i gwblhau ceisiadau, sydd ar hyn o bryd yn aneglur. Darparodd wybodaeth am strategaethau'r cynnig, sy'n canolbwyntio ar gymunedau arfordirol Sir y Fflint ac yn cynnwys etifeddiaeth yr hen ddiwydiannau trwm, gwella safleoedd cyflogaeth, lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelu safleoedd treftadaeth pwysig. Y gobaith yw gweld y cynigion hyn yn helpu i gadw cyflogwyr, defnyddio asedau treftadaeth unwaith eto ac annog pobl leol ac ymwelwyr i ymweld â'r ardal arfordirol.

Yna fe ddarparodd wybodaeth am y 4 diffyg yn y farchnad sy'n derbyn sylw yn y cynigion:-

- Diffyg buddsoddi mewn adeiladau gyda llawer yn dod i ddiwedd eu hoes
- Treftadaeth - mae llawer o safleoedd yn dirywio

- Dociau Cei Connah
- Yr arfordir - angen sicrhau ei fod yn cael ei werthfawrogi a datrys problemau o ran cysylltiad

Cadarnhaodd y Rheolwr Menter ac Adfywio fod y cynigion yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a bod angen gwneud mwy o waith arnynt. Darparwyd gwybodaeth am y cynigion ar gyfer Delyn, Parc Castell y Fflint a Pharc Busnes Maes Glas, sy'n defnyddio hen adeiladau'r diwydiant trwm. Mae'r rhain yn eiddo i'r Cyngor a gall y cynigion ddiogelu swyddi ar y safleoedd hyn.

Gan symud i Alun a Glannau Dyfrdwy, amlinellodd y Rheolwr Menter ac Adfywio'r cynigion ar gyfer dociau Cei Connah, y parc busnes ac i fynd i'r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Eglurwyd y cynigion ar gyfer y Tŵr Cloc yn Shotton a moderneiddio'r unedau busnes yn defnyddio cynllun grant eiddo busnes. Byddai mynediad gwell i'r ardal gyfan yn cael ei ystyried i annog ymwelwyr. Hefyd, eglurwyd yr amserlen ar gyfer y cynigion a sut y byddant yn cael eu hasesu a'u rhoi ar restr fer gan sicrhau eu bod yn gadarn ac yn bosibl. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yr wythnos nesaf gyda'r Prif Swyddog a'r Aelod Cabinet yn symud hyn yn ei flaen gydag awdurdod dirprwyedig i ddiwygio'r cais i fodloni gofynion Llywodraeth y DU.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton fod y Gronfa Codi'r Gwastad yn gyfle i wella treftadaeth dociau Cei Connah ac ailddefnyddio'r ardal. Byddai argaeledd grantiau gwella busnes ar gyfer yr hen waith dur ac adeiladau John Summers yn fuddiol i'r ardal gyfan. Roedd ei bryderon yn ymwneud â'r cyfnod byr o amser tan 2024.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Joe Johnson at Faes Glas a gofynnodd a oedd y cynnig yn darparu unedau newydd neu'n ailwampio'r hen unedau. Gofynnodd hefyd a oes rhestr aros ar gyfer yr unedau hyn. Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Menter ac Adfywio fod gwaith asesu yn cael ei wneud ond fod rhai unedau wedi dirywio cymaint nad oes modd eu hatgyweirio. Mae'n fuan iawn yn y broses ac mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r tenantiaid i drafod y dewisiadau ac i gefnogi'r busnesau. Petai'r cyllid ar gael byddai rhai unedau yn cael eu dymchwel a'u codi o'r newydd. Mae yna alw go iawn ac ni fyddai unrhyw anawsterau wrth eu gosod.

Dywedodd y Cynghorydd Sean Bibby fod yna botensial gwych ar gyfer yr ardal arfordirol gyfan sy'n cael ei thanddefnyddio. Gan gyfeirio at ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau delio cyffuriau, talodd deyrnged i waith caled yr asiantaethau a'r Heddlu wrth geisio lleihau'r problemau. Roedd yn llwyr gefnogi'r holl feysydd yn y cynigion.

Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom i bwy y dylid cyflwyno sylwadau manylach. Mewn ymateb, gofynnodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i'r Aelodau anfon pob sylw yn ysgrifenedig at y Rheolwr Menter ac Adfywio cyn cyfarfod y Cabinet ddydd Mawrth nesaf.

Roedd Aelod Cabinet Datblygu Economaidd yn pryderu ynghylch yr amserlenni a'r cyfraddau llwyddo gan ddweud bod yn rhaid i bob cais fod yn

gadarn. Roedd yn optimistaidd a dywedodd y byddai cysylltu etholaethau gyda chyfleoedd i hyrwyddo'r dreftadaeth arfordirol yn darparu cyfeiriad tua 2024.

Dywedodd y Cadeirydd fod angen buddsoddi yn y parc busnes ym Maes Glas gan ei fod yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Sir y Fflint. Ychwanegodd fod Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas (MF2) yn yr adroddiad yn rhan o'r cynllun ar gyfer Cyngor Tref Treffynnon.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Joe Sean Bibby.

**PENDERFYNWYD:**

Adolygodd a thrafododd yr Aelodau'r dull arfaethedig i ddatblygu'r cynigion i'w cyflwyno ar gyfer ail gylch cyllido Cronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU.

**56. Diweddariad ar Economi Sir y Fflint**

Cyflwynodd Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr adroddiad sy'n edrych ar yr heriau a wynebir yn dilyn pandemig Covid-19 a Brexit ac sy'n asesiad ar sail tystiolaeth o sefyllfa bresennol yr economi yn Sir y Fflint. Mae'r adroddiad yn nodi sefyllfa'r Cyngor yn genedlaethol ac yn lleol a'r goblygiadau i fusnesau.

Eglurodd y Rheolwr Menter ac Adfywio fod yr economi mewn cyflwr o newid yn dilyn Brexit a'r pandemig gyda Sir y Fflint ar hyn o bryd yn parhau'n gryf ac yn nes at gyfartaledd y DU o ran cystadleurwydd. Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amlinellu'r heriau a wynebir gan fusnesau gyda rhai yn cau ac eraill yn lleihau eu gallu i fasnachu gyda llai o drosiant a hyder. Mae'r heriau wrth fewnforio ac allforio yn dilyn Brexit yn parhau.

Adroddodd y Rheolwr Menter ac Adfywio ar waith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac amlygodd y pwyntiau allweddol. Mae llai wedi colli'u swyddi na'r disgwyl gyda diweithdra yn uwch y llynedd ond yn llai eleni. Ymddengys nad yw dyheadau pobl ifanc a'r farchnad lafur yn cyd-fynd a darparwyd gwybodaeth am gyfleoedd gwaith heb eu llenwi; mae 81% o fusnesau wedi cael trafferth recriwtio gweithwyr ac mae'n rhaid i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r Cyngor wneud gwaith pellach i helpu i fynd i'r afael â hyn. Mae diffyg hyder ymhlith busnesau wedi effeithio ar fuddsoddi ac adfer gyda phob sector yn cael anawsterau recriwtio, yn enwedig y sectorau gofal, adeiladu a thwristiaeth a lletygarwch. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynorthwyo'r busnesau hyn i recriwtio. Mater arall i'w amlygu yw anawsterau busnesau wrth ganfod eiddo addas, ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hynny hefyd.

Cyfeiriodd y Rheolwr Menter ac Adfywio at drethi busnes a darparodd wybodaeth am lefydd gwag ar draws Sir y Fflint, a oedd yn amlygu bod rhai sectorau mewn mwy o berygl nag eraill. Adroddodd y Rheolwr Menter ac Adfer ar ymateb rhanbarthol Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ddarparu cyllid brys i ganol trefi a'r diwydiant croeso. Darparwyd gwybodaeth am waith Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy a Grŵp Adfer Economaidd y

Cyngor, ynghyd â'r ffrydiau ariannu sydd ar gael i'r Cyngor. Hefyd, fe roddwyd diweddariad ar gynllun peilot benthyciad entrepreneuriaeth canol trefi.

Teimlodd y Cynghorydd Owen Thomas fod ffermwyr yn gwneud yn dda a dywedodd fod galw mawr am eu cynnyrch, yn enwedig cig oen o Gymru. Mae gormod o sylw wedi'i roi i Brexit ac mae'n bryd symud ymlaen. Dywedodd y byddai eleni yn flwyddyn gadarnhaol, yn enwedig gyda siopau canol y dref yn ddechrau llenwi.

Dywedodd Aelod Cabinet Datblygu Economaidd fod y sefyllfa'n gadarnhaol a bod arwyddion cadarnhaol yn ein canol trefi. Mae ffermwyr yn dweud pa mor ofnadwy oedd Brexit gyda physgotwyr yn methu gwerthu i'r cyfandir oherwydd biwrocratiaeth. Roedd y materion mewn perthynas â sgiliau, cyflenwadau a llymder yn bodoli cyn Covid. Roedd yn falch bod Sir y Fflint yn y sefyllfa hon ond dywedodd na fyddai holl effeithiau Brexit i'w gweld am rai blynyddoedd.

Roedd y Cadeirydd wedi drysu efo'r ffigyrau gan ddweud bod diweithdra i fyny ond bod recriwtio i lawr, a gofynnodd am eglurhad. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Menter ac Adfer fod y darlun yn wahanol ymhob sector. Mae staff yn gadael rhai sectorau ac yn symud i swyddi eraill, mae rhai gweithwyr yn ymddeol yn gynnar ac mae llai o fusnesau yn defnyddio gweithwyr Ewropeaidd.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Sean Bibby a Joe Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

Bod cynnwys a chasgliadau'r adroddiad wedi'i hystyried a'u cefnogi.

## 57. ADOLYGU TREFNIADAU TORRI GWAIR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth). Cyflwynodd Neil Cox, y Rheolwr Gwasanaeth Stryd newydd i'r Pwyllgor.

Mae'n arfer da adolygu ein trefniadau ac mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth y gwasanaeth hwn. Mae'r polisi wedi'i adolygu'n rheolaidd ers 2012 gyda'r fersiwn ddiweddaraf wedi'i chymeradwyo fis Ionawr 2020 Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg o'r perfformiad yn ystod tymor 2021. Cyfeiriwyd at adrannau 1.02 ac 1.07 sy'n darparu gwybodaeth am y gweithgareddau a'r gwaith torri blynyddol. Yna fe gyfeiriodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) at adrannau 1.10 ac 1.11 ac Atodiad 2 sy'n darparu crynodeb ar gyfer pob tîm a'r gwaith torri yn ystod y tymor. Amlygwyd effeithiau'r tywydd gwlyb hefyd. Darparwyd eglurhad hefyd o'r newidiadau i'r broses dendro ar gyfer y contract chwistrellu chwyn er mwyn ei wneud yn fwy cadarn. Gorffennodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) drwy ddweud nad oes unrhyw argymhelliad i newid y polisi.

Gofynnodd y Cadeirydd a yw’r rhaglen plannu blodau wedi helpu efo torri gwair. Mewn ymateb, dywedodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod prosesau i’w dilyn fel casglu ac ailblannu ar ddechrau a diwedd y tymor, sydd dal angen adnoddau. Cadarnhaodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd fod mwy na 50 o safleoedd bach ar draws y sir sydd angen ymateb gwahanol, gyda pheiriannau a dulliau rheoli pwrpasol. Mae’r Cyngor yn cefnogi ac yn hyrwyddo creu ardaloedd blodau gwyllt, gyda rhai ardaloedd wedyn ddim angen eu torri.

Cyfeiriodd y Cynghorydd George Hardcastle at effaith newid hinsawdd gyda’r gwair yn tyfu’n gynharach yn y tymor a gofynnodd a oes angen torri gwair yn amlach. Mewn ymateb soniodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) am gynlluniau i ddechrau gwaith torri gwair y gaeaf yn gynt a’i ymestyn, ond mae’r tymor yn dechrau’n gynt bob blwyddyn. Eglurodd fod yr un adnoddau’n cael eu defnyddio i raeanu’r ffyrdd a bod y gwaith torri gwair a graeanu’r ffyrdd yn gorgyffwrdd ym mis Mawrth. Mae’n anodd rheoli hyn ond mae gwaith torri ychwanegol yn cael eu cynllunio ar gyfer diwedd mis Ionawr/dechrau mis Chwefror er mwyn bod ar ben hyn cyn i’r tymor ddechrau. Ym mis Ionawr 2020 adroddodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd fod gwaith torri llwyddiannus wedi’i wneud ond bod y fantais hon wedi’i cholli wrth i’r wlad fynd i mewn i gyfnod clo yn sgil y pandemig fis Mawrth 2020. Gyda’r tymor torri gwair yn cael ei estyn i’r gaeaf, gall y tir fod yn wlyb a mwdlyd iawn, a’r peiriannau wedyn yn troi ac yn difrodi’r tir sydd wedyn yn cymryd mwy o amser i adfer.

Gofynnodd y Cynghorydd Owen Thomas y cwestiynau canlynol:-

- Cyfeiriodd at y frawddeg olaf ar dudalen 73 a oedd yn dweud mai pwrpas torri gwair yw cynnal diogelwch a gwelededd ar y briffordd. Dywedodd fod y gwair ar rai lonydd gwledig a ddefnyddir yn helaeth yn hir iawn a bod 50% o’r gwelededd yn cael ei golli. Mae angen torri’r gwair yn y llefydd yma fwy nag unwaith y flwyddyn. Mae’r adroddiad yn dweud bod gwair yn cael ei dorri 4 gwaith mewn ardaloedd trefol ac unwaith mewn ardaloedd gwledig.
- Cyfeiriodd at erddi tenantiaid a gofynnodd pam nad yw’r gwair yn cael ei godi ar ôl ei dorri neu a oes modd defnyddio peiriant sy’n torri’r gwair yn fân iawn.
- Cyfeiriodd hefyd at fannau amwynder gan ddweud ei fod wedi mynd i wylio gemau pêl-droed lle’r oedd y gwair yn 4 modfedd o hyd. A oes modd edrych ar hyn?
- Cyfeiriodd wedyn at gloddiau gan ddweud eu bod wedi tyfu’n aruthrol y llynedd ac yn crafu ceir ac yn rhwystro gwelededd. Roedd yn deall mai cyfrifoldeb y tirfeddianwyr ydynt ond gofynnodd a oes modd mynd i’r afael â hyn. Mae cloddiau a thyfiant lleiniau ymyl ffordd yn mynd yn fwy ac mae angen ystyried hyn wrth gynllunio ar gyfer y gwasanaeth.

Gan ymateb i’r sylwadau a gafwyd, cytunodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) i siarad efo’r Cynghorydd Thomas y tu allan i’r cyfarfod. Mae yna safonau gwahanol ar gyfer ffyrdd gwledig a ffyrdd trefol mewn perthynas â lleiniau gwelededd. Roedd hi’n cydnabod ei sylwadau ynglŷn ag ansawdd y gwaith a chadarnhaodd y byddai’n ymchwilio i’r materion a godwyd gan y Cynghorydd Thomas. Dywedodd fod amlder y gwaith torri gwair wedi’i nodi

yn y polisi ond, os yw'r Cynghorydd Thomas yn ymwybodol o broblemau mewn ardaloedd penodol, o ran cloddiau neu dorri gwair, gofynnodd iddo gysylltu â'i Gydlynydd Ardal yn y lle cyntaf, gan fod ganddynt ddisgresiwn i fynd i'r afael â materion o'r fath. Gan gyfeirio at erddi tenantiaid, cadarnhaodd fod hyn yn cyd-fynd â'r polisi ac yn cael ei ddarparu gan gontractwr. Yn anffodus nid oes digon o adnoddau i'n caniatáu ni i dorri'r gwair yn fân a chasglu'r toriadau.

Mewn ymateb i'r pwynt am fannau amwynder, dywedodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd fod sawl cwyn wedi dod i law am gaeau pêl-droed. Mae'r rhain yn cael eu rheoli gan ysgolion neu ganolfannau chwaraeon ac mae'r tîm mewnol yn torri'r gwair. Mae'r atodlen perfformiad caeau cymunedol ar gael yn Atodiad 2 ond oherwydd y tywydd nid yw wedi bod yn bosibl torri'r gwair ar adegau penodol; ond mae'r caeau wedi'u torri 12 gwaith. Gofynnodd i'r Cynghorydd Thomas gadarnhau lleoliad y caeau er mwyn iddo ymchwilio ymhellach i hyn. Gan gyfeirio at ffyrdd gwledig cadarnhaodd fod y polisi yn dweud mai unwaith y flwyddyn maent yn cael eu torri, ond eu bod hefyd yn cael eu torri fis Medi/Hydref. Os yw'r Cydlynydd Ardal yn ymwybodol o'r materion hyn yna mae ganddo'r disgresiwn i ddelio â nhw. Cytunodd i siarad efo'r Cynghorydd Thomas yn uniongyrchol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Thomas fod hyn wedi'i godi gyda'r Cydlynydd Ardal y llynedd oherwydd pryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch ac roedd yn derbyn bod y tyfiant y llynedd wedi bod yn aruthrol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd fod y rhan fwyaf o'r cloddiau mewn dwylo preifat ac y byddai'n rhaid i'r Cyngor ysgrifennu at y perchennog i roi cyfle iddynt wneud y gwaith cynnal a chadw. Mae proses i'w dilyn os ydynt yn methu â gweithredu ar ôl ein cyngor. Ychwanegodd y Cynghorydd Thomas y byddai'n hoffi gweld y gyfraith yn newid fel bod modd torri cloddiau yn ystod mis cyntaf y tymor.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton fod effeithiau newid hinsawdd i'w gweld ymhob man. Dywedodd fod y gwaith plannu blodau gwyllt wedi cael croeso mawr yn ei ardal. Roedd yn falch o glywed fod y sefyllfa gyda'r contract chwistrellu chwyn yn derbyn sylw a gofynnodd a oedd y lladdwr yn doddiant gwan. Gan ymateb i'r Cynghorydd Shotton eglurodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) nad y toddiant a ddefnyddir yw'r broblem ond bod y Cyngor wedi'i adael i lawr gan y contractwyr ac yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r gwaith.

Gofynnodd y Cadeirydd beth sy'n cael ei gynnig mewn perthynas â'r contract newydd. Mewn ymateb, cadarnhawyd y byddai'r ardaloedd yn cael eu rhannu'n lotiau i sicrhau cadernid. Cadarnhaodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd eu bod ar y cam comisiynu ar hyn o bryd gyda'r rhannu, maint a'r ardaloedd yn cael eu hystyried. Mae ardaloedd y gogledd, y canol a'r de yn cael eu hystyried, a fyddai'n cyd-fynd ag ardaloedd y contractwr torri lleiniau ymyl ffordd. O ran torri lleiniau ymyl ffordd mae'r un contractwr yn cael ei ddefnyddio yn y gogledd ar de, ond ar draws tair ardal. Darparodd wybodaeth am y trafodaethau gyda Chyngor Sir Ddinbych a'r Adran Dai a dywedodd nad oes cyfle go iawn i ymestyn y contractau. Byddai'r contractau'n cael eu rhannu i sicrhau bod yna opsiynau wrth gefn petai angen.

Croesawodd Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd Neil Cox i'r cyfarfod a'r Gwasanaethau Stryd. Dywedodd mai'r cynghorwyr yw llygaid a chlustiau'r Cydlynwyr Ardal yn y lle cyntaf. Os yw Aelodau yn teimlo bod materion angen eu codi, awgrymodd y dylid eu cynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Ian Roberts yn deall y rhwystredigaeth ond dywedodd nad oes yn rhaid aros am gyfarfod o'r pwyllgor i godi'r materion hyn; mae modd codi'r materion drwy'r Cydlynwyr Ardal, Uwch Swyddogion ac Arweinwyr Grwpiau. Yn ystod y cyfnod clo blaenoriaeth y Cyngor oedd darparu gwasanaethau hanfodol a chanmolodd y staff am eu dulliau gweithio yn ystod y pandemig.

Cytunodd y Cynghorydd George Hardcastle a dywedodd fod staff y Gwasanaethau Stryd ac ailgylchu wedi gwneud gwaith rhagorol yn ystod y cyfnod clo.

Cadarnhaodd Neil Cox fod modd i Aelodau gysylltu ag ef yn uniongyrchol.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr David Evans ac Owen Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith a wneir ac yn fodlon nad oes angen newid y polisi.

## 58. MEINI PRAWF PASYS CERBYD CANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF

Cadarnhaodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod y Cabinet wedi gofyn am adolygiad yn dilyn y ddau weithdy a gynhaliwyd i aelodau fis Gorffennaf 2021. Cynllun pasys cerbyd yw'r ffordd decaf i sicrhau mynediad a phenderfynu ar ddefnydd anghyfreithlon gan fasnachwyr. Roedd yr adborth o'r gweithdai ym mis Gorffennaf 2021 yn dweud bod y polisi'n ddryslyd ac yn amwys, sydd, yn anfwriadol, wedi arwain at fasnachwyr yn camddefnyddio'r system ac yn gwaredu gwastraff masnachol, nad ydym i fod i'w dderbyn, yn ein canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Mae problemau wedi bod ar y safleoedd gyda staff yn profi cam-drin geiriol a chorfforol, a hynny wedi arwain at alw'r heddlu.

Pwrpas yr adolygiad oedd gwneud y polisi'n gliriach, yn llai amwys ac yn haws ei ddeall. Roedd hefyd yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd gan adael i fasnachwyr ddod â'u gwastraff cartref i'r safle (e.e. plymiwr yn dod â gwastraff gardd yn defnyddio pas untro). Unwaith eto, mewn ymateb i adborth yn ystod y gweithdai i Aelodau, cynigiwyd system archebu ar gyfer asbestos a deunyddiau peryglus eraill a matresi mawr. Cyfeiriodd at Atodiad 1 sy'n amlinellu'r newidiadau allweddol a soniodd y bydd angen pas ar gyfer pob trelar, beth bynnag ei faint. Mae'r broses ymgeisio ar-lein bellach yn gliriach ac yn cyfyngu ar y gwrthdaro gan fod hynny wedi'i wneud ar y safle o'r blaen. Bydd pasys yn cael eu neilltuo i safleoedd penodol i ddirymu'r angen i ddeiliaid pasys deithio i wahanol safleoedd i waredu eu gwastraff. Bydd y system newydd yn cael ei chyflwyno fis Ebrill 2022 er mwyn rhoi amser i'r gwasanaeth gyfathrebu gyda

deiliaid pasys presennol ac egluro'r gofynion newydd a hysbysebu'r system newydd. Bydd taflenni'n cael eu darparu cyn y dyddiad cyflwyno ym mis Ebrill er mwyn caniatáu cyfnod gras. Mae Atodiad 2 yn amlygu'r polisi casglu presennol. Bydd rhwystrau hefyd yn cael eu gosod ar y safle i helpu'r staff. Mae gwybodaeth am y system archebu ar gael yn Atodiad 3.

Gofynnodd y Cynghorydd Owen Thomas am eglurhad ynghylch maint y trelars a ganiateir ar y safle a lle mae modd cael y pasys. Dywedodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod modd dod â threlar o unrhyw faint ar y safle, yn rhad ac am ddim. Mae yna broses ar-lein i wneud cais am bas wedi'i ddarparu yn Alltami gyda gwiriadau gweledol a ffotograffau ar-lein. Mae hyn yn gweithio'n dda ac wedi bod ar waith ers blwyddyn. Mae Swyddfeydd Sir y Fflint yn Cysylltu yn dal yn darparu cymorth ar gyfer hyn ac mae staff Alltami yn cynnal asesiadau. Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref Sir y Fflint yn ardderchog ac yn darparu gwasanaeth gwych i drigolion gyda staff sy'n barod iawn eu cymwynas.

Gofynnodd y Cadeirydd a oes modd dod â cherbydau gydag arwyddion busnes arnynt i'r safleoedd. Mewn ymateb, dywedodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) bod modd i bobl gael dau bas untro bob blwyddyn i ddod â cherbydau busnes i'r safleoedd ar yr amod eu bod yn gwaredu eu gwastraff cartref eu hunain.

Roedd Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd yn falch iawn o'r polisi a oedd yn diogelu'r gweithlu o ran gwaredu gwastraff peryglus fel asbestos. Mae hefyd yn darparu sicrwydd i drigolion pan fyddant yn teithio i'r safleoedd i waredu matresi.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Owen Thomas a Paul Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn cefnogi'r Polisi Pasys Cerbyd newydd ar gyfer Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.
(b) Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn cefnogi meini prawf y system archebu newydd ar gyfer Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

## 59. ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTEROL BARGEN DWF GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) adroddiad cynnydd chwe mis ar y Bwrdd Uchelgais Economaidd, a oedd wedi'i oedi o gyfarfod mis Rhagfyr. Mae'r adroddiad yn nodi cynnydd achosion busnes amlinellol a chyfeiriwyd at bwynt 1.05 sy'n dweud bod gan y rhan fwyaf o'r prosiectau statws oren. Mae pwynt 1.08 yn cynnwys gwybodaeth am y 7 prosiect gyda statws coch. Mae pwynt 1.09 yn egluro'r gweithgareddau caffael a chaffael lleol sydd wedi'u cynnal gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Mae gwybodaeth am y Bwrdd Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth a'r camau a gymerir i leihau effeithiau amgylcheddol hefyd wedi'i chynnwys. Mae'r atodiad yn cynnwys mwy o fanylion.

Mae'r Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) yn gobeithio y bydd David Matthews, Rheolwr Tir a Phrosiect y Bwrdd Rhaglen Tir ac Eiddo yn dod i gyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom a oes modd derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am Borth Caergybi a Dociau Mostyn pan fydd ar gael. Mewn ymateb, awgrymodd Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) os oes gan y Cynghorydd Heesom unrhyw gwestiwn manwl yna y byddai David Matthews yn gallu darparu atebion mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cytunodd i gylchredeg unrhyw ddiweddariad a dderbynnir cyn cyfarfod mis Chwefror.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Paul Shotton a George Hardcastle.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr Aelodau yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 2.

## 60. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.00 pm)

…………………………
**Cadeirydd**